
Y PAPUR GWYRDD

**CYLCHGRAWN CYMRAEG NEWYDD SY'N ANNOG PARCH AT Y DDAEAR ...**

# Y Winllan Fawr







Y PAPUR GWYRDD
Awst/Medi 2007
PRIS: £1
Cyf 1 Rhif 1
ISSN 1755-3504

## Y PAPUR GWYRDD

Cylchgrawn annibynol yw'r **Papur Gwyrdd** fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddeufisol gan gwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.

Prif nod y cylchgrawn yw trafod a hybu syniadau a gweithgarwch ecolegol fel rhan o'r ymdrechion byd-eang i warchod y Ddaear fel cartref rhyfeddol i ddynoliaeth a byd natur, ac i fynnu pwyslais newydd ar ymdrechion i gryfhau cymunedau lleol.

Croesewir newyddion ac awgrymiadau sy'n cefnogi'r ymgyrch tyngedfennol hwn i ddod o hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw.

**GOLYGYDD**
Hywel Davies

**FFÔN**
01792 798162

**EBOST**
ypapurgwyrdd1@btinternet.com


**GWEFAN**
www.ypapurgwyrdd.com

**CYFEIRIAD**
217 Vicarage Road,
Treforys,
Abertawe SA6 6DX




**ARGRAFFYDD**
Argreffir yn lleol ar bapur o fforestydd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Canolfan Busnes Mynachlog-Nedd, Castell-nedd SA10 7DR


# Yn y rhifyn arloesol

◀**3:** Apêl am ffordd newydd o fyw gan Sir John Houghton, y gwyddonydd o Gymro sy'n un o brif arbenigwyr y byd ar Newid Hinsawdd



▶**11:** Arddangosfa o luniau sy'n dangos effaith Newid Hinsawdd ar Eryri ...

▼**12:** Plant Aberaeron yn galw am barch i'r Ddaear wrth lanhau'r traethau ...



**8:** Yn Philadelphia, menyw y Ci Gwyn yn arwain Mudiad Busnesau Lleol

**9:** Cofio colli Coed Glyn Cynon a Choed Marchan




**4:** Y Papur Gwyrdd yn dilyn 'Seren Gomer' wedi 200 mlynedd o lygredd diwydiannol yn Abertawe

▶**5:** Sioe fawr 'Daear Fyw' yn cario'r neges ecolegol ar draws y byd



◀**7:** Yr Arlywydd Jimmy Carter a Rosalynn yn dathlu 25 mlynedd o weithio dros heddwch rhwng pobl y Ddaear


## LLUNIAU'R CLAWR ...



**Llun eiconaidd NASA o'r Ddaear — delwedd sydd wedi ysbrydoli llawer i ail-ystyried perthynas pobl a'r byd**



**Porth Solfach, Enlli — yr ynys sanctaidd sy'n sumbol o dref-tadaeth a chynefin**

## Cyffes y ceir ...



GAIR bach i esbonio nad mewn ysbryd o foesoli hunan gyfiawn yr aed ati i lansio cylchgrawn Y Papur Gwyrdd, ond gan deimlo bod angen i bawb ohonom geisio'n gorau i helpu ffrwyno eithafion Newid Hinsawdd.

Bydd rhaid i Deulu Davies Treforys, fel eraill, ymdrechu'n galetach i addasu ein ffordd o fyw er mwyn defnyddio llai o'r ynni sy'n creu nwyon poethi. Er enghraifft, mae gennym dri char - un ohonynt yn Daihatsu Fourtrack! Swyddogaeth 'Dai', gyda'i beiriant 2.8 litr, yw tynnu *'trailer'* ceffylau. Ond, i geisio cadw'r glorian gerbydol yn wastad, mae'r ddau gar arall yn Renault Clio bach 1.2, a hefyd - seren ein hymdrechion - yr Honda Civic IMA, 'hybrid' trydan/olew ardderchog, sydd ond 1.3.

Felly, teithiwn yn amlach ar drenau a bysiau (yn llawen, gyda thocyn rhad ein Cynulliad Cenedlaethol i'r rhai dros 60!), yn llai ar awyrennau, compostiwn, diffoddwn drydan, insiwleiddiwn ac ati ... A chyhoeddwn Y Papur Gwyrdd! HYWEL DAVIES

## CYFWELIAD GYDA SYR JOHN HOUGHTON

# Angen ymgyrch moesol i ddelio â Newid Hinsawdd

MAE'R gwyddonydd o Gymro sydd ymhlith awdurdodau penna'r byd ar Newid Hinsawdd wedi galw ar bobl Cymru i fabwysiadu'r ymgyrch amgylcheddol fel achos moesol.

O'i gartref yn Aberdyfi, dywedodd Syr John Houghton wrth **Y Papur Gwyrdd**, "Mae angen amcanion moesol ac ysbrydol arnom.

"Rhaid inni helpu pobl eraill ar y Ddaear sy'n diodde' o effeithiau Newid Hinsawdd - pobl dlawd. Rhaid symud i ffwrdd o fod yn farus. Rhaid inni wneud yr hyn sydd yn iawn."

Dywedodd Syr John ein bod yn wynebu problem amgylcheddol fawr ond roedd yn mynnu bod dynolryw o'i natur yn derbyn argyfyngau fel hyn fel her a bod llawer o bethau y gallwn wneud wrth ymateb i'r sefyllfa.

Rhybuddiodd fod y cynnydd mewn nwyon $CO_2$ sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr yn cael effaith ddifrifol ar y blaned.

"Er enghraifft, mae lefelau'r môr yn codi ac rydym yn gweld mwy o dywydd eithafol - gyda llifogydd diweddar Lloegr yn enghraifft o hyn," meddai.

"Bydd miliynau o bobl yn gorfod gadael eu cartrefi – yn arbennig pobl dlawd mewn gwledydd isel fel Bangladesh."

Galwodd Syr John ar wledydd y Gorllewin i arllwys llai o $CO_2$ i'r awyr ac i helpu gwledydd tlawd i fod yn gynaliadwy.

"Mae gennym y dechnoleg i wneud hynny," meddai, "Nawr mae angen yr ewyllys i weithredu. Seiliwyd ein cyfoeth ni ar ddefnydd tanwydd ffosil sydd wedi achosi cychwyn Newid Hinsawdd dros y 200 mlynedd diwethaf."

Apeliodd ar bobl Cymru, a phobl gwledydd eraill y Gorllewin, i wneud popeth posib i dorri lawr ar eu defnydd o ynni ac i osgoi arllwys nwyon twymo i'r awyr. Mae angen gwastraffu llai o wres, e.e. trwy insiwleiddio, meddai, prynu trydan o ffynonellau gwyrdd, prynu offer trydan Gradd A, prynu nwyddau lleol, defnyddio bylbiau ynni isel, ail gylchu'n frwd, prynu ceir effeithiol, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio, cerdded ac ati.

Wrth droi sylw at lywodraethau, dywedodd fod gan Gymru botensial mawr i greu ynni adnewyddol.

"Flwyddyn nesaf, bydd prawf o bwerdy tonnau ger arfordir Sir Benfro fydd yn cynhyrchu 7 megawatt o drydan," meddai, "Mae llanw uchel iawn gennym ac fe allem adeiladu amrywiaeth o offer cynhyrchu amgen, nid morgloddiau yn unig ond twrbeini a *lagoons* hefyd."

Wrth gyfeirio at dwrbeini gwynt, dywedodd Syr John nad oedd am eu gweld yn gorchuddio Cymru. Rhaid oedd dewis eu safleoedd yn ofalus. Ond roedd ganddynt gyfraniad wrth greu ynni adnewyddol.

"O ran ynni biomass," meddai, "mae gwaith pwysig iawn yn cael ei wneud gan IGER (Sefydliad y Gweirydd) yn Aberystwyth wrth astudio'r planhigion mwya' addas i gynhyrchu ynni."

Ond rhybuddiodd fod rhaid bod yn ofalus iawn wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cynhyrchu, er enghraifft, ethanol, a'r effaith ar bobl ac amgylchedd.

"Rhaid inni anelu at greu Cymru Carbon Niwtral," meddai. "Rhaid inni goleddu amcanion amgenach na hel arian.

"Rhaid inni helpu pobl eraill y Ddaear gan ei gwneud yn well le i fyw arni. Mae 'na lawer o bethau y gallwn wneud fydd yn dda inni mewn llawer ffordd.

"Byddai byd cynaliadwy yn fyd hapusach o lawer. Byddai'n dda i bawb ohonom fyw yn fwy cynaliadwy."

►*Roedd gan Syr John feirniadaeth hallt am raglen deledu ddiweddar Sianel 4, 'The Great Global Warming Swindle', a ddarlledwyd ar S4C, gan ei chyhuddo o gamarwain gwylwyr trwy wadu difrifoldeb bygythiad Newid Hinsawdd. "Roedd hi'n rhaglen sâl iawn," meddai, "Y rhaglen wyddonol waethaf dw i erioed wedi'i gwylio."*



**Ganed Syr John Houghton ym mhentref Dyserth ger y Rhyl. Aeth o Ysgol Ramadeg y dref i astudio ffiseg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, gan ennill doethuriaeth yno a dod yn Athro ffiseg atmosfferig.**

**Yn ddiweddarach, bu'n Brif Weithredwr y Swyddfa Feteoroleg ganolog. Bu'n gadeirydd ar un o dri gweithgor y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd, yn aelod o Banel Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Prydain, ac yn Is Lywydd Asiantaeth Feteoroleg y Byd.**

**Mae'n awdur ar nifer o lyfrau, yn ddarlithydd adnabyddus, ac wedi'i anrhydeddu am ei waith gwyddonol a'i arweiniad ar gwestiwn Newid Hinsawdd.**

**Mae'n Gristion sy'n credu mai cyfrifoldeb pobl wrth fod ar y Ddaear yw i warchod y greadigaeth gan addasu eu gweithgareddau fel sydd angen.**

# Lleihau prynu tramor — a helpu cymunedau

YN YSTOD cynhadledd Cymdeithas y Pridd yng Nghaerdydd, dywedodd y darlledwr Jonathan Dimbleby, llywydd y gymdeithas, y dylai llywodraethau bwyso ar bawb i ddechrau lleihau eu defnydd o danwyddau ffosil – trwy, er enghraifft, brynu llai o fwyd a fewnforiwyd ar ôl teithiau awyr o filoedd o filltiroedd.

Roedd cynhadledd **Amaeth Un Blaned** yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio ffarmio organig i gyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr ac adfer economïau lleol trwy gynhyrchu bwyd lleol.

Daeth gair o eglurhad i'r bobl hynny yn y Gorllewin sy'n poeni ynglŷn â pheidio a phrynu o wledydd tlawd.



Vandana Shiva

Dywedodd Vandana Shiva, sy'n wyddonydd ac yn weithredwraig amgylcheddol adnabyddus o'r India, nad oedd angen i bobl bryderu y byddant yn niweidio ffermwyr bach mewn gwledydd datblygu trwy beidio a phrynu bwyd a fewnforiwyd.

I'r gwrthwyneb, meddai: "Trwy wrthod ychwanegu at filltiroedd bwyd a nwyon carbon, rydych yn amddiffyn economïau'r werin bobl," meddai.

Bydd paratoi cymunedau ar gyfer byd lle bydd olew yn brin yn rhan bwysig o agenda Cymdeithas y Pridd dros y blynyddoedd nesaf.

## Pa mor hen? ...

**DOES neb yn gwybod pa mor hen ydy dynoliaeth …**
**Ond mae pawb yn cytuno ei fod yn ddigon hen i wybod yn well.**

**[Anon, Americanaidd]**

## 'Y PAPUR GWYRDD' YN LLINACH 'SEREN GOMER'

# Trafod pwnc mwya'r dydd



PAN gychwynnodd y Parch Joseph 'Gomer' Harris a David Jenkins ar eu hanturiaeth fawr wrth sefydlu papur newydd Cymraeg cyntaf Cymru – yr wythnosolyn **Seren Gomer** – yn Abertawe ym 1814, eu penderfyniad oedd defnyddio'r Gymraeg i gyhoeddi adroddiadau nid yn unig ar newyddion cartref ond ar ddatblygiadau tramor yn ogystal.

Doedd yr 'Omeraeg', fel roeddynt yn cyfeirio at yr iaith bryd hynny, ddim mewn unrhyw fodd i olygu cyfyngu ar y math o gynnwys fyddai'n ymddangos yn eu papur arloesol.

Fel roedd yn addas iawn mewn tref oedd yn agored i fynd a dod o bellter byd trwy ei dociau prysur, bwriad y ddau *entrepreneur* oedd defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i gyflwyno ehangder o negeseuon yn hytrach nag fel neges ynddo'i hunan.

Er iddo fod yn bapur sylweddol ac uchelgeisiol oedd yn dangos gweledigaeth, gallu ac ymroddiad ar ran y tîm cyhoeddi, bu gyrfa'r **Seren** yn siomedig o fyr - nid oherwydd diffyg cylchrediad, ond diffyg hysbysebion a phwysau'r doll lywodraethol ar gyhoeddiadau.

Cafodd newyddion Cymru ben baladr a Lloegr sylw, wrth gwrs, ond y newyddion arweiniol gydol ei blwyddyn a hanner o fodolaeth oedd yr ymrafael milwrol ar dir cyfandir Ewrop. Yno, roedd Napoleon – y 'gwr atgas o Gorsica' fel y cyfeiriwyd ato – yn wynebu cynghreiriaid o wledydd oedd am ei ddymchwel. Dyna fygythiad mawr y dydd.

Fel sy'n addas i gylchgrawn sy'n dilyn ôl traed newyddiadurol y **Seren** yn Abertawe, bydd **Y Papur Gwyrdd** hefyd yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno a thrafod newyddion o bob cwr o'r byd am fygythiad mawr ein cyfnod ni - sef yr ysbeilio a'r gwenwyno anferth ar ein hamgylchfyd sy'n peryglu gallu ein Daear ryfeddol i gynnal cenedlaethau'r dyfodol.

Prin 200 mlynedd sydd rhwng **Seren Gomer** a'r **Papur Gwyrdd**, sef, yn eironig, y 200 mlynedd waetha o ran halogi'r blaned gan ddynolryw - rhywbeth fyddai eisoes wedi bod yn amlwg iawn i newyddiadurwyr ac argraffwyr Cymraeg Abertawe yn 1814 gan fod gweithfeydd metel eisoes wedi hen ddechrau llenwi Cwm Tawe gyda mwg ac Afon Tawe gyda chemegau.

Bydd y **Papur Gwyrdd** yn dangos sut mae pobl a chymunedau ledled y byd yn ceisio gwrthweithio'r systemau diwydiannol a masnachol sy'n ein harwain i gyflawni hunan laddiad ecolegol ar raddfa blanedol. Dyna fesur o'r broses a gychwynnwyd yng nghyfnod Joseph 'Gomer' Harris ac sy'n codi i'w hanterth bygythiol yn ein cyfnod ni.

Gan adlewyrchu rhybuddion mwyafrif llethol gwyddonwyr amgylcheddol, ceisiwn esbonio'r newidiadau sy'n effeithio ar hinsawdd y blaned gan annog pawb ohonom i wneud yr hyn a allwn fel rhan o fudiad byd-eang i arafu ac atal y broses.

Y neges symlaf i ni gyd ei dderbyn yw ein bod yn byw ar blaned gymharol fechan sy'n hwylio o gylch yr Haul - ein seren leol - yng nghwmni nifer o blanedau eraill. Hynny yw, mae gan ein hunig gynefin blanedol ffiniau penodol iddo: haen denau iawn o awyr sy'n ein galluogi i anadlu; ychydig iawn o bridd sy'n caniatáu i ni dyfu bwyd; prinhau mae'r dŵr croyw sydd gennym i'w yfed; a phrinhau'n gyflym hefyd mae tanwydd ffosil megis olew ddaeth yn sail i safon byw'r Gorllewin.

Ond, wedi anrheithio enbyd y 19eg a'r 20fed ganrif, rydym yn dal ar ruthr fel bodau dall i sugno'r cyfan o adnoddau'r ddaear gan lygru'r amgylchedd a difrodi byd natur er mwyn diwallu chwant materol lleiafrif o boblogaeth y blaned.

Edrychwn ar syniadau sy'n cymell patrymau newydd o fyw fydd yn golygu bod pobloedd y ddaear yn gallu cael bywydau llawnach a hapusach wrth ail-ddeall eu perthynas a'r Ddaear. Golyga hyn lacio gafael y corfforaethau diwydiannol a masnachol



**Gwelodd 'Seren Gomer' gyfnod cynnar y Chwyldro Diwydiannol fyddai'n llygru Abertawe gyda nwyon a chemegau mewn modd cynddrwg ag unrhyw ddinas yn y byd. Bellach mae'r traeth hyfryd a'r marina prysur yn sumbolau o lwyddiant ymdrech fawr i lanhau'r amgylchedd. Ond dioddefodd y Ddaear i gyd yn y cyfamser — pwnc mawr ein cyfnod ni.**

enfawr sy'n ein clymu i gyd mewn maglau economaidd y 'Fasnach Rydd' sy'n dinistrio cymunedau yn Ewrop ac America. Cyfrannodd hyn at dlodi, afiechyd, ac anghyfiawnder i laweroedd o'n cyd-drigolion ar gyfandiroedd eraill er mwyn ennill elw tymor byr iawn i fuddsoddwyr.


Edrychwn hefyd, ar ffyrdd newydd cynaliadwy o gynhyrchu ynni yn lle'r tanwyddau ffosil niweidiol sy'n prysur ddod i ben. Ond gwnawn hyn gan bwysleisio'r angen i fabwysiadu ffyrdd llai gwastraffus o fyw.

Rhown sylw arbennig i ymdrechion i gynnal a datblygu - neu ail-ddatblygu - economïau lleol er mwyn i gymunedau naturiol gynnig cynhaliaeth i'w pobl ifainc. Ac yn yr un modd, cefnogwn ymdrechion i sicrhau heddwch a chydweithrediad rhwng pobloedd y byd gan werthfawrogi eu hamrywiol ddiwylliannau.

Er mor bwerus yw'r prosesau niweidiol amrywiol sydd ar waith, mae gobaith o hyd y gellir dod a'r difrod i'r Ddaear i ben yn y tymor hir. Mae'r ymwybyddiaeth o'r perygl ar gynnydd ymhlith llywodraethau a busnesau a phobl gyffredin. Yn wir, ledled y byd mae pobl yn dechrau ail ystyried eu gwerthoedd gan weld bod parchu'r Ddaear a'i chynnal i'r oesoedd a ddêl ymysg yr amcanion pwysicaf y gallwn anelu ato.

Nod **Y Papur Gwyrdd** fydd i fod yn rhan o'r ymgyrch aruchel a chyffrous hwnnw yma yng Nghymru - gyda'r Gymraeg yn sianel fywiog i'r drafodaeth ac yn gyfrwng adlewyrchu a hybu gweithgarwch ecolegol yn ein plith wrth geisio diogeli'r unig gartref sydd gennym, sef ein Daear wyrthiol.

Wedi'r cyfan, fel un o brif ardaloedd y Chwyldroad Diwydiannol a gychwynnodd y llygru mawr, mae gan Gymru gyfrifoldeb arbennig i fod ar flaen y gad i achub y sefyllfa.



Gyda'r profiad chwerw hwnnw'n gefndir, mae'n briodol iawn bod ein Cynulliad Cenedlaethol dan orfodaeth statudol i fynnu lles yr amgylchedd wrth ystyried pob polisi a phob datblygiad.

Unwn i gyd yn yr ymdrech, gan gofio am ddyfodol ein plant.

# Al Gore — y dyfodol yn dibynnu arnom



Mae Al Gore yn galw ar bawb i arwyddo Addewid Sioe y Ddaear Fyw (ar y dde). Gellir dod o hyd i'r Addewid ar y Wê: www.avaaz.org

## Tair blynedd o ddysgu a gwthio

**I YCHWANEGU at lwyddiant ei ffilm amgylcheddol, An Inconvenient Truth, a chyhoeddusrwydd y sioe, Live Earth, mae Al Gore wedi lansio ymdrech newydd i berswadio pobl a llywodraethau i gymryd bygythiad newid hinsawdd o ddifrif.**

**Cyhoeddodd "ymgyrch tair blynedd i gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â sut i ddatrys argyfwng yr hinsawdd."**

**Meddai, "Mae'r rhagolygon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu arnom ni wrth inni wrando ar, deall, a gweithredu'r wybodaeth hon."**

**Profodd ei ffilm An Inconvenient Truth, am y bygythiad i'n hamgylchedd, yn llwyddiant annisgwyl. Mae bellach ar gael ar DVD.**

RWY'N ADDO –

1. I alw ar fy ngwlad i ymuno â chytundeb rhyngwladol yn ystod y ddwy flynedd nesaf fydd yn gostwng llygredd twymo byd-eang gan 90% mewn gwledydd datblygedig a chan 50% yn fyd eang fel y gall y genhedlaeth nesaf etifeddu Daear iach
2. I weithio'n bersonol i helpu datrys yr argyfwng hinsawdd trwy leihau fy llygredd $CO_2$ innau gymaint ag y gallaf
3. I alw am foratoriwm ar adeiladu unrhyw bwerdy newydd sy'n llosgi glo sy'n methu a dal a storio $CO_2$ yn ddiogel
4. I weithio dros gynnydd dramatig yn effeithiolrwydd ynni fy nghartref, gweithle, ysgol, man addoli, a modd trafnidiaeth
5. I ymgyrchu dros gyfreithiau a pholisiau sy'n ehangu'r defnydd o ffynonellau ynni cynaliadwy ac yn gostwng dibyniaeth ar olew a glo
6. I blannu coed newydd ac i ymuno ag eraill wrth gadw ac amddiffyn coedwigoedd
7. I brynu gyda busnesau - ac i gefnogi arweinwyr - sy'n rhannu f'ymroddiad personol i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac i greu byd cynaliadwy, cyfiawn a llewyrchus ar gyfer yr 21ain ganrif

GORDON JAMES YN GWELD YR YMGYRCH YN MAGU NERTH ...

# ... Ond cymaint eto sydd angen ei wneud

MAE gwleidyddion heddiw bron yn baglu dros ei gilydd i brofi eu cymwysterau amgylcheddol.

Un enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth unfrydol a roddwyd gan aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol fis Chwefror diwethaf i'r cynnig y dylai newid hinsawdd fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth newydd y Cynulliad.

Ar yr un pryd, mae archfarchnadoedd mewn cystadleuaeth ffyrnig i ennill cwsmeriaid trwy honni eu bod yn ymateb i broblemau fel milltiroedd bwyd, defnydd ynni, a bagiau plastig.

Ddylai hyn ddim dod fel syndod. Mae'r amgylchedd naturiol, wedi'r cyfan, yn sustem cynnal bywyd sy'n darparu popeth sydd angen arnom i fyw.

Ynghyd â'r sylweddoliad cynyddol y gallai newid hinsawdd ganu cnul gwareiddiad, dyw'r pwyslais sydd bellach yn cael ei roi ar bynciau amgylcheddol ddim wedi dod eiliad yn rhy fuan.

Gymaint mae pethau wedi newid! Dros 30 mlynedd yn ôl, pan ddechreuais i ymgyrchu ar bynciau fel ynni niwclear, garddio organig ac ailgylchu, roedden ni'n cael ein hystyried ar y cyfan fel crancs gwyrdd.



Gordon James: Llefarydd Cyfeillion y Ddaear Cymru

Er inni daro tant gyda rhai oedd ag atgofion braf o dyfu bwyd heb gemegau neu o oroesi cyfnodau o galedi trwy wastraffu y nesa' peth i ddim, roedd llawer yn ein gweld fel pobl oedd yn erbyn cynnydd a swyddi.

Mae'r frwydr, wy i'n teimlo, wedi bod yn fwy ffyrnig yn fy nghynefin i yn ne orllewin Cymru nag yn unman arall. Cynigiodd presenoldeb diwydiant mawr ynni ffosil yn Aberdaugleddau, mor agos i arfordir ardderchog Sir Benfro, ynghyd â diweithdra uchel ac incwm isel, yr holl gynhwysion ar gyfer rhaniadau chwerw ac ymgyrchoedd diddiwedd.

Ond fe brofodd proffwydoliaethau o niwed economaidd o ganlyniad i ofynion amgylcheddol yn ddi-sail. Yn wir, mae llawer yn cydnabod bellach bod arferion sy'n dda yn amgylcheddol yn dod â budd economaidd a chymdeithasol.

Mae hyn wedi'i ymgorffori yng ngorchwyl statudol arloesol y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Cafodd hyn ei atgyfnerthu yn ddiweddar gan rybuddion adroddiad Stern y byddai wynebu newid hinsawdd nawr yn costio llawer llai nag oedi a gorfod delio a'r effeithiau nes ymlaen.

Er y symud ymlaen a gafwyd, rydym bellach yn wynebu'r her fwya' o'r cyfan. Wrth i broffwydoliaethau gwyddonol o newid hinsawdd droi'n fwy brawychus, mae arllwysion o'r prif nwy newid hinsawdd, carbon deuocsid, yn dal i godi yng Nghymru.

Rhaid i wleidyddion droi eu rhethreg am newid hinsawdd i weithredoedd fydd yn arwain at doriadau sylweddol mewn arllwysion.

Mae gennym fesurau diri' i'n cynorthwyo i wneud hyn. Ac mae gennym oll ran i'w chwarae wrth osod esiampl ac wrth sicrhau bod gwleidyddion ar bob lefel yn deall yr angen dybryd i weithredu.

**GORDON JAMES**

## MUDIAD NEWYDD DROS ECONOMEG GALL

# Gwerth y byd yn uwch na masnach

MAE globaleiddio, y diwylliant prynwriaeth, a'r holl ddoethinebu confensiynol ynglŷn â datblygiad economaidd a chyfoeth yn dod dan y chwyddwydr gan **Sefydliad yr Economeg Werdd**.

Gyda mwy nag erioed o fwlch rhwng cyfoethog a thlawd ledled y byd, gan gynnwys gwledydd fel Cymru, ynghyd â nifer cynyddol o bobl yn byw a bod dan amodau byw gwael, mae'r Sefydliad a grêwyd yn 2006 yn chwilio am atebion newydd ac am ail-asesiad llwyr o'r problemau ac o'r hyn sy'n cyfrif mewn gwirionedd.

Crêwyd y Sefydliad er mwyn dod â meddylwyr, ymgyrchwyr, gweithredwyr, academyddion, llunwyr polisiau, pobl fusnes sy'n chwilio am ffordd amgen i weithredu, economegwyr, llenorion a ffurfwyr barn at ei gilydd er mwyn addysgu a chyfnewid gwybodaeth am syniadau, ac i gynnig y math o offer a dulliau sydd eu hangen er mwyn sicrhau newid er gwell.

Yn ôl Miriam Kennet, un o sylfaenwyr Sefydliad yr Economeg Werdd, mae twf y mudiad wedi bod yn rhyfeddol ar ôl iddo gael ei lansio y tu allan i'r Blaid Werdd.

Wrth gael ei holi ar wefan **Greenworld Online** dywed: "Mae gennym ddeg ar hugain o ganghennau led-led y byd gan gynnwys pobl sydd â swyddi dylanwadol gyda grwpiau gwleidyddol.

"Rydym yn cael ein holi gan fyd busnes gan gynnwys corfforaethau rhyngwladol.

"Dw i wedi cael fy synnu i ddarganfod eu bod nhw'n daer iawn i ddod o hyd i atebion newydd, a bod angen amgylchedd arnynt lle gallent drafod yr agenda cymdeithasol, amgylcheddol a chyfiawnder sy'n amhosibl ar hyn o bryd tu fewn i'r economeg gyfoes.

"Mae'r diddordeb wedi'n synnu'n fawr. Mae hyd yn oed y cyfryngau yn dechrau eisiau clywed beth sydd gennym i'w ddweud."

Cynhaliwyd cynhadledd gyntaf y Sefydliad yng Ngholeg Mansfield ym Mhrifysgol Rhydychen yn Ebrill 2006 gan lansio cylchgrawn **The Green Economist** fel lladmerydd i'r byd.

Mae tair egwyddor yn sylfaen i holl syniadaeth y mudiad newydd:

1. Ei bod hi'n amhosibl ehangu am byth mewn gofod sydd â therfyn iddo
2. Ei bod hi'n amhosibl cymryd am byth o adnawdd sydd â therfyn iddo
3. Bod popeth ar wyneb y ddaear wedi'u cysylltu â'i gilydd

Bydd polisiau corfforaethau rhyngwladol a'r holl broses o globaleiddio yn cael eu hasesu yn ôl eu heffaith ar amrywiaeth o gymunedau byd-eang gan gynnwys pobloedd frodorol, lleiafrifoedd, menywod, dinasyddion gwledydd llai datblygedig, trigolion eraill y ddaear sydd ddim yn rhan o ddynolryw, ynghyd â holl amgylchedd naturiol y ddaear sy'n cynnal bywyd i bawb a phopeth byw.


**Tramiau modern yn lleihau traffig a llygredd ynghanol dinas Berlin.**

Bydd diwylliant prynwriaeth – y wasgfa a'r ysfa i brynu nwyddau mawr a bach – yn cael ei asesu'n feirniadol. Mae'r Sefydliad yn anelu at syniadau economaidd fydd yn gwasanaethu gwir anghenion pobl yn lle rhai sy'n gwneud fawr mwy na thrafod cyflenwad a galw'r farchnad.

Gan anelu at ddim llai nag ail-weithio, ail-gyfeirio, ac ail-gyflwyno prif ffrwd economeg, mae'r Sefydliad yn gobeithio creu economeg werdd fydd yn fwy effeithiol wrth ddelio gyda phroblemau cyfoes.

Wrth wneud hyn, mae'r mudiad yn cynnal cynadleddau o arbenigwyr rhyngwladol i drafod pynciau megis tlodi, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, newid hinsawdd, dinasoedd cynaliadwy, ymgyrchu byd eang a damcaniaethau economaidd amgen.

Gobaith y cyfan yn y pendraw yw y bydd llaweroedd o bobl yn mwynhau gwell ansawdd bywyd o ganlyniad i weithgarwch y Sefydliad newydd.

***► Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am Sefydliad yr Economeg Werdd trwy fynd at eu gwefan: www.greenworld.org.uk.***
***Neu, ebostiwch: events@greeneconomicsinstitute.eu***

# Pobl Tsieina yn ofni trychinebau amgylcheddol

GYDA chymaint o bwysau ar dwf economaidd, disgwylir y bydd Tsieina yn cymryd lle'r Unol Daleithiau fel achoswr llygredd carbon deuocsid gwaetha'r byd yn fuan wrth i bwll glo newydd gael ei agor bob wythnos.

Gyda phryder eang am y tebygrwydd o drychineb amgylcheddol mawr yn y wlad, mae tua 2,000 o fudiadau ymgyrchu wedi'u cofrestru, gan arwain amrywiaeth o brotestiadau mawr yn ymwneud â llygredd, anghyfiawnder i weithwyr mewn ffatrïoedd, a niwed i fyd natur.

Er yn poeni am y goblygiadau gwleidyddol, mae Llywodraeth Tsieina yn dweud eu bod yn croesawu'r grwpiau fel arf i'w cynorthwyo i amddiffyn yr amgylchedd — ond mae llawer yn cwyno am arafwch yr awdurdodau i ymateb.

Dywedir bod rhyw 760,000 o bobl yn marw bob blwyddyn oherwydd llygredd awyr a dŵr. Yn Shanghai, pencadlys ariannol Tsieina, dim ond 67% o'r awyr sy'n addas i'w anadlu — gyda'r gweddill yn cynnwys arsenic, plwm ac arian byw.

Mae'r mwg mor ddrwg yn Shanxi, prif ranbarth glofaol Tsieina, fel nad yw pobl yn gallu gweld o'i blaen yn aml a llygrwyd


**Tsieina: dros 100 o ddinasoedd gyda dros filiwn o bobl**

arfordir Guangdong gan 1.26 miliwn tunnell o gemegau yn 2006.

Mae Tsieina'n cynhyrchu cyfran sylweddol o nwyddau rhad archfarchnadoedd gwledydd y Gorllewin - gyda'r gweithwyr yn derbyn cyflogau isel ac yn diodde' amodau gwaith a byw gwael. Fe gaeodd Burberry ei ffatri yn y Rhondda Fawr yn ddiweddar — wedi blynyddoedd o ymroddiad gan y gweithwyr a'r gymuned — am fod costau cynhyrchu, wrth gwrs, gymaint yn llai yn Tsieina.

CANOLFAN JIMMY CARTER YN DATHLU

# 25 mlynedd o fynnu heddwch, ymladd afiechyd a chodi gobaith

NID pwdu gwnaeth Jimmy Carter wrth golli Arlywyddiaeth yr Unol Daleithiau i Ronald Reagan ym 1980 ond mynd ati gyda'i wraig Rosalynn i sefydlu canolfan yn Atlanta, Georgia, er mwyn ymgyrchu dros heddwch rhyngwladol, yn erbyn afiechydon ac i greu amodau bywyd gwell i bobl ledled y byd.

Mae Canolfan Carter eleni yn dathlu Chwarter Canmlwyddiant ac mae'r gweithgarwch dros y blynyddoedd wedi golygu parch cynyddol i'r cyn-Arlywydd gan gynnwys ennill iddo Wobr Nobel dros Heddwch ym 2002.

Mae 'na ail ystyried hefyd o'r gwaith wnaeth y Cristion ymroddedig o Plains, Georgia, yn ystod ei bedair blynedd yn y Tŷ Gwyn. Mae haneswyr gwleidyddol yn rhoi clod cynyddol iddo am ei waith yn arbennig am Gytundeb Camp David rhwng yr Aifft ac Israel.



Y cyn-Arlywydd Jimmy a Rosalynn Carter yn cael eu cyfarch yn Indoniesia

Wrth edrych yn ôl at sefydlu'r Ganolfan, meddai'r Arlywydd Carter, "Pan adawodd Rosalynn a minnau'r Tŷ Gwyn, roedd llawer o waith yn dal ar ôl i wireddu breuddwydion i hybu hawliau dynol a heddwch ledled y byd.

"Roedden ni'n credu y byddai'n ddylanwad a'n perthynas gydag arweinwyr y byd yn gallu cael eu defnyddio i adeiladu partneriaethau i gyrchu tua'r nodau hynny."

Mae Rosalynn Carter hithau wedi chwarae rhan flaenllaw yn y Ganolfan: "Mae Canolfan Carter wedi datblygu i fod yn drefniant sydd wedi ennill hyder pobl. Mae pobl yn teimlo bod y Ganolfan yn onest ac yn becso amdanyn nhw.

"Mae'r rôl werthfawr hwn i ni ac i'r Ganolfan yn rhywbeth nad oeddem wedi gallu dychmygu pan ddaethom adref o'r Tŷ Gwyn gan gredu y byddem yn *'bored to death'* am weddill ein bywydau."

Bu'r Arlywydd Carter a'i wraig hefyd yn weithgar gyda mudiad Habitat for Humanity, yn creu tai clyd i bobl ddigartref.

Wrth gloriannu'u gwaith rhyngwladol, meddai Jimmy Carter, "Rwy'n credu ein bod wedi dangos bod mudiad bach yn gallu bod yn effeithiol heb fod yn rhan o lywodraeth.

"Rwy'n credu ein bod ni hefyd wedi dangos … ein bod yn gallu croesi'r gagendor rhwng cyfoethog a thlawd ar y ddaear."

Mae'r pâr ysbrydoledig yn dal ynghanol eu gwaith ac wrth sôn am ddyfodol y Ganolfan mae gan Jimmy gyngor i bawb: "Rwy'n gobeithio fel mudiad fyddwn ni byth yn gadael i ofn methiant fod yn esgus i beidio a cheisio."

**►Enwyd Jimmy Carter gan Nelson Mandela i fod yn un o'r *Henaduriaid* sydd i gynnig eu profiad i wynebu problemau megis yr amgylchedd, Aids, trais rhyngwladol ac ati.**

MUDIAD I ASIO TRADDODIADAU

## Pobl ffydd yn dod ynghyd gan anelu at fyd gwell

MAE yng Nghymru dair cangen o'r mudiad Rhyng-Ffydd sy'n ceisio dod â phobl o wahanol gredoau crefyddol rhyngwladol at ei gilydd er mwyn cydweithio — sef yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

Mae'r mudiad wedi'i seilio ar ddatganiad a luniwyd gan gynrychiolwyr nifer o grefyddau sy'n cynnwys ymrwymiad amgylcheddol:

YR YMRWYMIAD RHYNG-FFYDD

Rydym yn ymrwymo'n hunain,
fel pobl o lawer ffydd,
i weithio â'n gilydd
er daioni cyffredin,
gan uno i adeiladu gwell
gymdeithas,
wedi'i seilio ar werthoedd a
delfrydau a rannwn:

Cymuned,
Gonestrwydd personol,
Ymdeimlad o dda a drwg,
Dysg, doethineb a chariad at y gwir,

Gofal a thosturi,
Cyfiawnder a heddwch,
Parch at ein gilydd,
at y ddaear a'i holl greaduriaid.

Ymdynghedwn,
mewn ysbryd o gyfeillgarwch a
chydweithrediad,
i weithio â'n gilydd
ochr yn ochr â phawb sy'n rhannu
ein gwerthoedd a'n delfrydau,
i gynorthwyo i greu byd gwell
yn awr ac am genedlaethau i ddod.

## Y Graith Goch ar ddaear Cymru …

MUR Tsieina yw'r unig nodwedd a wnaed gan bobl y Ddaear sy'n gallu cael ei weld o'r gofod, meddan nhw.

Efallai gallan nhw ychwanegu'r Graith Goch enfawr sy'n denu sylw teithwyr Jumbo Jets uwchben de Cymru ar hyn o bryd. Dyma gŵys droellog pibell y Nwy Hylifol sy'n hollti'r wlad ar hyn o bryd o Sir Benfro trwy Shir Gâr a Phowys i Loegr.

Caiff ei chuddio cyn hir, medd Llywodraeth San Steffan, a fydd neb yn gweld y gwahaniaeth. Ond ar ba gost i'r amgylchedd y cyflawnir yr anfadwaith wrth ysbeilio'r tir, arllwys nwyon peiriannau i'r awyr, a'n clymu eto i danwydd ffosil?

BUSNES SY'N DWEUD NA I'R ECONOMI BYD EANG

# Dechrau'n lleol, bod yn lleol, aros yn lleol — neges y Ci Gwyn

PAN agorodd Judy Wicks ei thŷ bwyta poblogaidd y Ci Gwyn yn Philadelphia ym 1983 ei phenderfyniad oedd y byddai'n aros yn fach ac yn lleol.

Ac er mor llwyddiannus mae'r Ci Gwyn wedi profi i fod, mae Judy wedi cadw at yr athrawiaeth honno gyda'i holl weithgarwch busnes sydd bellach â throsiant o dros $5miliwn y flwyddyn.

Mae ei syniadau am bwysigrwydd economïau lleol wedi arwain at sefydlu mudiad *Business Alliance for Local Living Economies (Balle)* yn yr Unol Daleithiau sy'n datgan, "Peidiwch a bwydo'r economi corfforaethol byd-eang sy'n dinistrio ein cymunedau."

Mae Judy hefyd wedi creu y *White Dog Café Foundation* i hyrwyddo perthynas gyda mentrau lleol eraill yn Philadelphia, a gyda busnesau mewn gwledydd eraill ledled y byd sy'n adlewyrchu ei hagweddau at bwysigrwydd aros yn fach ac yn lleol.

"Wrth dyfu'n fwy, y'ch chi'n colli ma's ar berthnasau go iawn," meddai, "Fe ddes i o hyd i ffyrdd eraill o dyfu: dyfnhau ein perthnasau, ehangu'n hymwybyddiaeth, ein gwybodaeth, ein llawenydd.

"Gyda'r Ci Gwyn, be wnes i yn lle agor mwy o Gwn Gwyn, oedd agor Y Gath Ddu, sef ein siop gwerthu gemwaith a nwyddau celf.

"Mae byw yn y gymuned yn golygu'n naturiol eich bod yn gwneud penderfyniadau o fudd i'ch holl gynhalwyr – staff, cwsmeriaid, cymdogion.

"Mae bod yn fach yn lleihau'r pellter rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau busnes a'r bobl hynny mae penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw. Mae rhai o fy mhenderfyniadau pwysicaf wedi dod nid o fy mhen ond o'm calon."



► Y Ci Gwyn — yn driw i'w gynefin

Mae'r Ci Gwyn wedi'i hen sefydlu fel cymuned ynddo'i hun: "Rydym yn cael darlithoedd wedi prydau bwyd, yn teithio i safleoedd ecolegol pwysig, yn ymweld â thai bwyta lleol lleiafrifol, yn teithio tramor, ac yn dathlu ein cymuned."

►*Llawer o wybodaeth ddiddorol am Judy ar: www.whitedog.com. A beth am alw yn y White Dog os yn Philadelphia?*

## Profion y WWF yn ein rhybuddio ...

# Rydym yn sathru'r Ddaear dan draed

MAE chwe gwirfoddolwr gan gynnwys y cyflwynydd teledu Branwen Gwyn wedi cael eu rhoi trwy brawf unigryw gan WWF Cymru oedd yn mesur eu hôl troed ecolegol ar y Ddaear.



Wrth ddathlu lansiad cyfrifiannell ôl troed ymgyrch Un Blaned WWF yn ystod Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, roedd WWF Cymru wedi gallu dangos effaith amgylcheddol eu ffyrdd o fyw.

Defnyddiodd y gwirfoddolwyr y gyfrifiannell Ôl Troed Ecolegol gyntaf ar www.org.uk/calculator i helpu i leihau eu hôl troed. Atebodd y gwirfoddolwyr gwestiynau'r am eu ffyrdd o fyw i ddarganfod sawl planed roedd eu hôl troed yn gofyn amdano.

Darganfu Branwen Gwyn, sy'n wyneb adnabyddus ar deledu Cymru ac yn gerddor dawnus, y byddai ei ffordd o fyw yn galw am 2.57 planed pe bai pawb ar y ddaear yn byw'n debyg iddi hi.

Ond rhywfaint o gysur i Branwen oedd bod hyn yn is na chyfartaledd pobl y DU yn gyffredinol, sy'n galw am 3.14 planed.

Dywedodd Branwen: "Mae yna gymaint y gallwn ni wneud yn ein bywydau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae camau syml, fel defnyddio'n ceir llai ar gyfer teithiau byr a diffodd ein setiau teledu yn lle eu gadael yn y modd parod, yn gallu helpu i wneud gwahaniaeth mawr.

"Mae cyfrifiannell ar-lein WWF yn ffordd wych o'n helpu ni i gyd i ddarganfod sut y gallwn ni fyw mewn ffordd wyrddach i helpu i ddiogelu ein hamgylchedd."

Y pum gwirfoddolwr arall oedd: Kate Hamer o'r Trallwng, Marc Richards o Aberystwyth, a Ruth Mullineux, Lucy Tibbot a Richard Walton, o Gaerdydd.

Dywedodd Morgan Parry, Pennaeth WWF Cymru: "Mae ein gorddefnyddiaeth yn arwain yn uniongyrchol at newid yn yr hinsawdd, difodiant rhywogaethau a methiant pysgodfeydd.

"Ond gan y gwyddom ni bellach ein bod ni'n cael effaith ddifrifol ar y Ddaear, gallwn wneud rhywbeth yn ei gylch," meddai.

"Gallwn ddatrys y broblem hon trwy symud at ffyrdd o fyw gwahanol – ond gwell, iachach a hapusach – yr ydym ni'n eu galw'n ffyrdd o fyw Un Blaned".

## Diflaniad y ceir trydan

**MAE'R Toyota Prius a'r Honda Civic IMA yn enwog fel ceir hybrid sy'n cyfuno petrol a thrydan - ond beth ddaeth o'r holl sôn glywyd rhyw 10 mlynedd 'nôl am geir llwyr drydanol chwim a deniadol?**

**Ffilm ddogfen sy'n ceisio ateb y cwestiwn hwnnw yw *Who Killed the Electric Car?* (Sony Home Pictures)**

**Mae'r ffilm yn dangos mai corfforaethau olew a moduron laddodd y ceir trydan a grëwyd y pryd hynny yn dilyn penderfyniad Senedd Taleithiol Califfornia i dorri llygredd nwyon twymo'r byd i sero. Aeth y cwmniau at y llysoedd i'w cael i wrthod y mesurau.**

**Ond, dan arweiniad Arnold Schwarzenegger, mae Califfornia wedi cryfhau mesurau gwrth lygredd eto gan anelu at doriad o 25% erbyn 2020.**


## Pris ein bagiau plastig

**PAN olchwyd corff morfil i'r lan yn Normandy, Ffrainc, dyma gafwyd yn ei stwmog: 1 pecyn creision plastig-aliwminiwm; 2 fag plastig o archfarchnad yn Lloegr; 7 darn o fag bin sbwriel; 7 bag plastig; 1 gorchudd bwyd plastig.**

►Ewch at www.morsbag.com am ymgyrch i gael gwared â'r bagiau plastig siopa sy'n achosi cymaint o lanast i'r byd .

COFIO'N BEIRDD A'U PROTEST AMGYLCHEDDOL

# Asio'r Winllan Wen a'r Winllan Fawr


Colli Coed Glyn Cynon a Choed Marchan


MAE'R ddelwedd o etifeddiaeth fel gwinllan, a'r winllan honno'n cael ei darnio dan draed, yn hynod bwerus i Gymry Cymraeg.

Dyna pam y cyfeiriwn at y Ddaear fel y Winllan Fawr yn llun hyfryd NASA ar glawr **Y Papur Gwyrdd**.

Fel "y Winllan Wen" y cyfeiriodd y Parch Lewis Valentine at Gymru yn ei eiriau i Ffinlandia, gan seilio'i gymhariaeth ar y geiriau enwog gan Saunders Lewis ym **Muchedd Garmon**:

*'Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad, i'w thraddodi i'm plant, ac i blant fy mhlant, yn dreftadaeth dragwyddol. Ac wele'r moch yn rhuthro arni, i'w baeddu.'*

Dros yr hanner canrif ddiwethaf, gwelwyd ymateb cryf i'r 'baeddu' a wnaed i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a diolch am hynny. Ond wrth i'r gwaith barhau i roi bywyd newydd i iaith a diwylliant, rhywbeth i'w groesawu yw bod mwy ohonom yn sylweddoli nawr bod ein treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd.


Y Ddaear — ein Gwinllan Fawr. Llun: NASA

Gwnaed difrod erchyll i ddyffrynnoedd a bryniau Cymru gan y diwydiannau haearn, llechi, glo ac eraill dros y ddwy ganrif a hanner ddiwethaf. Crëwyd tipiau gwastraff anferth, rhwygwyd tyllau, arllwyswyd sbwriel i'n hafonydd a nwyon gwenwynig i'r awyr heb gyfrif unrhyw gost i wlad na phobl. Cyfiawnhawyd y cyfan gan y gair *'progress'* - cynnydd.

Ond nid yn llwyr heb brotest gan bobl Cymru y digwyddodd hynny, ac ysbrydoliaeth yw cofio hyn yn wyneb y llygredd sydd bellach yn niweidio'r Ddaear gyfan.

Mor fuan â'r unfed ganrif ar bymtheg bu beirdd yn gwrthwynebu'n gryf y diwydianwyr newydd hynny oedd yn llorio coedwigoedd gogoneddus ein gwlad. Y penillion enwocaf, efallai, oedd y rheiny o Gymoedd y de-ddwyrain yn disgrifio dinistrio Coed Glyn Cynon. Dyma dri ohonynt:

Aberdâr, Llanwynno i gyd,
Plwy' Merthyr hyd Lanfabon,
Mwyaf adfyd a fu erioed
Pan dorred Coed Glyn Cynon.

Llawer bedwen las ei chlog
(Ynghrog y bytho'r Saeson!)
Sydd yn danllwyth mawr o dan
Gan ŵyr yr haearn duon.

Clywais ddwedyd ar fy llw
Fod haid o'r ceirw cochion,
Yn oer eu lle, yn ymado a'u
plwy',
I ddugoed Mawddwy'r aethon'.

A chaed yr un math o brotest yn ardal Rhuthun yn Nyffryn Clwyd wrth i Goed Marchan ddisgyn. Yno hefyd, collodd anifeiliaid ac adar eu cynefinoedd.

Lluniwyd penillion i roi llais i wiwer ddychmygol deithiodd i Lundain i gwyno am y difrod i'w gynefin goediog:

Ar ei llw hi ddywed fal hyn,
anrheithio holl goed Rhuthun
a dwyn ei thŷ a'i sgubor
liw nos du, a'i chnau a'i stôr.
"Mae'r gwiwerod yn gweiddi
am y coed rhag ofn y ci.
Nid oes fry o goed y fron
Ond lludw y derw llwydion.
Nod oes gepyll heb ei gipio,
na nyth brân byth i'n bro.
Mae'r tylluanod yn udo
am y coed, yn gyrru plant
o'u co'."

Gweld ymhell iawn oedd y ddau fardd anhysbys: gweld gwerth amgylchedd naturiol y Ddaear gyfan yn cael ei gyfrif yn is na budd diwydiant ac elw ariannol.

Mae'r Winllan Fawr ei hun bellach dan warchae. Dyma ganlyniad gwareiddiad sydd wedi anghofio'n llwyr ein bod yn byw ar blaned, ac y gall sustemau naturiol y blaned honno gael eu newid gan yr hyn a wnawn heb feddwl am y canlyniadau ecolegol.

Trwy'r **Papur Gwyrdd**, bwriadwn leisio'r rhybuddion am y niwed hwnnw, gan adlewyrchu'r gwaith sy'n cychwyn mewn cymunedau yng Nghymru a ledled y Ddaear i geisio achub y sefyllfa.

Gwnawn hynny yn y grêd y bydd Cymry Cymraeg yn gafael yn yr achos fel un sy'n ganolog o bwysig iddynt hwy fel eu 'treftadaeth dragwyddol.' Oherwydd y Ddaear yw ein Gwinllan Fawr.

Ac wrth asio'r ymgyrch dros y Winllan Wen gyda hwnnw dros y Winllan Fawr, oni allwn gryfhau ein diwylliant wrth amddiffyn ein hamgylchedd trwy ystyried ffyrdd newydd o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i'n hymdrechion?

Wedi'r cyfan, mae 'cadw'r glendid a fu i'r oesoedd a ddêl' yn gymaint o her i ni ag ydyw i unrhywun arall.

## ARAFU AMSER — GYDA CHYMORTH CRWBAN



YN Awstria y sefydlwyd Cymdeithas Arafu Amser, ond bellach mae gan y mudiad aelodau ledled Ewrop.

Mae'r gymdeithas ymysg nifer cynyddol sy'n hyrwyddo byw, gweithio a chwarae — yn ara' deg.

Wrth hyrwyddo arafwch, mae hiwmor ymysg dulliau'r gymdeithas.


Trefnir 'trapiau cyflymder' i gerddwyr ynghanol dinasoedd. Mae pawb sy'n cael eu gweld yn cerdded yn rhy gyflym yn cael eu dal ac yn cael eu gwahodd yn garedig i esbonio pam eu bod ar gymaint o hast.

Y 'gosb' am esboniad annigonol am y cyflymder yw gorfod arafu trwy gerdded 50 medr ar hyd y pafin tra'n arwain marionette o grwban.

Dywedir bod mwyafrif y rhuthwyr di-angen yn mwynhau'r hwyl gyda rhai hyd yn oed yn dod 'nôl — yn araf — i gael cwmni'r crwban am yr ail dro.

CYHOEDDIADAU

# Y ffeithiau oer sy'n dangos canlyniadau twymo'r byd




IS-DEITL llyfr ysgytwol y gwyddonydd Tim Flannery **The Weather Makers** yw *Sut mae dyn yn newid yr hinsawdd a beth mae hyn yn olygu ar gyfer bywyd ar y Ddaear* – ac mae'r disgrifiad hwnnw'n ddigon o esboniad pam fod y gyfrol hon yn haeddu cael ei darllen ar frys gan bawb ohonom sy'n malio botwm corn am ein planed.

Mae'r Athro Flannery yn wyddonydd rhyngwladol uchel ei barch. Yn frodor o Awstralia, bu'n Athro ym Mhrifysgol Harvard ac mae'n Athro ar hyn o bryd 'nôl yn Sydney ym Mhrifysgol Macquarie.

Mewn dull clir, diddorol a phwerus, mae'r Athro Flannery yn cyflwyno'r wyddoniaeth sy'n esbonio sut mae ein ffordd o fyw - yn enwedig dros y degawdau mwyaf diweddar - wedi bod yn achosi newid hinsawdd ar gyflymder cynyddol. Wrth wneud hynny, mae'n chwalu pob ymgais gan leiafrif bychan, ond dylanwadol yn aml, i wadu'r cysylltiad.

Mae'n esbonio'n gwmws beth sy'n digwydd i'r patrymau tywydd, beth yw'r effaith mae hyn yn ei gael ar yr amgylchedd byd eang, a sut mae'n effeithio'n dorcalonnus o niweidiol ar fywyd gwyllt o bob math.

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys digon i'n brawychu, yn enwedig yr *Afterword,* ond mae Tim Flannery hefyd yn egluro beth sy'n bosib i ni ei wneud – fel pobl a llywodraethau – i geisio ffrwyno ar y gollyngiadau $CO_2$ a nwyon eraill sy'n poethi'r Ddaear.

Pwyntia'r bys yn ddiamwys at Arlywydd America George W Bush, Prif Weinidog Awstralia John Howard, a Phrif Weinidog Canada Steven Harper gan eu cyhuddo o fod ymysg y dinosoriaid gwaetha sydd wedi llesteirio ymdrechion i leihau arllwyson gwenwynig.

Mae Tim Flannery yn gorffen fel hyn: "Be' sy'n glir yw bod rhai o'n harweinwyr ynghwsg yn y *starting blocks*. Yn wyneb maint a brys yr her, mae hyn yn hollol annerbyniol. Gydag amser yn fyrrach nag erioed o'r blaen, alla i ond dweud eto, 'Drosodd atoch chi.'"

Mae hynny'n golygu ... Ni.

**►*The Weather Makers*, Tim Flannery (Grove Press, 2006). Meddai'r teithiwr enwog Bill Bryson amdano, "Byddai'n anodd dychmygu llyfr gwell na mwy pwysig."**

**Y Papur Gwyrdd**

**Prynwch yn lleol os ydy'n gyfleus, ond gellwch danysgrifio am 6 rhifyn deufisol am £6.**
**Taliad trwy siec at: Y Papur Gwyrdd Cyf., 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

***RHIFYN NESAF: HYDREF / TACHWEDD***

WWF

WWF Cymru yw swyddfa WWF-UK Cymru, sy'n rhan o rwydwaith amgylcheddol mwya'r byd. Mae ein swyddfeydd ym Mae Caerdydd, ond mae rhai aelodau staff yn gweithio ledled Cymru.

Mae'r tîm yn cyflawni gwaith polisi, lobïo a chyfathrebu ac yn sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau amgylcheddol a chefn gwlad eraill i gynnig atebion ac i sicrhau fod materion amgylcheddol a chynaliadwy yn flaenoriaeth ar yr agenda wleidyddol.

www.wwf.org.uk/cymru
wales@wwf.org.uk

THE BIG ASK
YR HER FAWR

**Cyfraith hinsawdd gadarn?**
**Dewch i ni ei sicrhau**
www.yrherfawr.com

**Friends of the Earth Cymru**
**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Oriel Arcêd y Castell
Caerdydd
Cymru
CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577
Ffacs 029 2022 8775
E bost: cymru@foe.co.uk

ARDDANGOSFA FFOTOGRAFFAU

# Newid Hinsawdd yn newid Eryri

‘AROS mae’r mynyddau mawr’, medd yr hen gân, ond mae arddangosfa o ffotograffau gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn yn dangos bod newid hinsawdd yn effeithio ar y cadarnaf o’n bryniau.

Pan aeth y ffotograffydd Joe Cornish ati i dynnu lluniau fyddai’n adlewyrchu Gaeaf 2005/6 ar y Carneddau, fe gafodd fod y sefyllfa’n wahanol iawn i 10 mlynedd ynghynt.

Pan aeth yno bryd hynny, roedd hi’n Aeaf go iawn, gydag eira dwfn, haenau o ia a rhew, a thymheredd isel — sef y math o oerfel ddenodd tim Everest 1953 i ymarfer yn Eryri cyn mynd ati a’i ymdrech llwyddiannus i ddringo’r uchaf o fynyddoedd y Ddaear.

Mor wahanol yw’r llun ar y dde uchod sy’n dangos be gafodd Joe Cornish yn 2005/6: dim eira, dim rhew, a’r tymheredd yn sylweddol uwch.

Dywed yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod y lluniau’n adlewyrchu’r ffaith fod y llinell eira a fu’n arferol yn Eryri yn ystod y Gaeaf ar 610m (2000tr) nawr wedi diflannu.

Y disgwyl yw y bydd llai o eira o lawer yn ystod Gaeafau’r dyfodol — 80% yn llai o eira erbyn 2080.

Byddai’r hen fugail Alun Mabon wedi sylwi ers tro ar y newid mawr sydd ar gerdded mor gyflym ac sy’n effeithio ar y cyfan o fyd natur. Mae’r arddangosfa yn rhybudd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am yr hyn sy’n digwydd ar garlam i’n hamgylchedd naturiol ledled gwledydd Prydain.

► *Bydd Arddangosfa **Newid Hinsawdd yn Iard Gefn Prydain** yng Nghastell Penrhyn hyd 2 Fedi. Gellir gweld posteri o’r arddangosfa ym mhlasty Erddig, Wrecsam, yn ystod mis Medi, ac yn Rhossili, Gwyr, trwy Hydref. Ffoniwch 01492 860123 am fwy o wybodaeth.*





**Delweddau trawiadol yn dangos sut mae’r tywydd yn newid ar y Carneddau. Eira trwchus a rhew gaeafol ddeng mlynedd yn ol, ond fawr ddim yn yr un man erbyn hyn.** © Joe Cornish/NTPL

## Plannu coed i fabanod Cymru



CAIFF tua 32,000 o goed brodorol eu plannu ledled Cymru wrth i fudiad Coed Cadw (y Woodland Trust) gydweithredu gyda’r Cynulliad Cenedlaethol i blannu coeden ar gyfer pob plentyn sy’n cael ei eni yng Nghymru.

Mae’r prosiect i ddechrau ym Medi ac fe gaiff y coed eu plannu yn bennaf ar diroedd Coed Cadw ond hefyd ar dir y Cynulliad (y Comisiwn Goedwigaeth).

Bydd pob baban yn derbyn tystysgrif i ddathlu’r plannu ac er na roddir labeli ar y coed bydd teuluoedd yn cael gwybod ymha goedwig y gwnaed y plannu a bydd croeso iddynt ymweld â’r safle.

Mae Cymru bellach yn un o’r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop gyda dim ond 13% o’n tir dan goed o gymharu â chyfartaledd o 46% ar y cyfandir.

►*Swyddog Cyhoeddusrwydd Cymru Coed Cadw yw Rory Francis. Ffôn: 07760 171174.*
*Ebost: roryfrancis@woodland-trust.org.uk.*
*Ceir gwybodaeth am weithgarwch Coed Cadw ar eu gwefan: www.coed-cadw.org.uk.*

## Canolfan sy’n dangos y ffordd ymlaen i’r Jacs

SEFYDLWYD Canolfan yr Amgylchedd yn Abertawe ym 1995 ac ers hynny mae wedi denu miloedd o ymwelwyr sy’n dymuno gweld beth y gallan nhw wneud i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Cafodd ei sefydlu fel elusen i gynorthwyo grwpiau amgylcheddol Abertawe a’r ardal a bellach mae wedi datblygu fel prif ganolfan gweithgarwch, addysg a gwybodaeth sy’n ymwneud a phynciau ecolegol i’r ddinas ac ardal dde-orllewin Cymru.

Mae’r Ganolfan wedi’i lleoli mewn hen swyddfa deleffon yn Pier Street, Abertawe, yn agos at Westy Morgan, ac mae’n cynnwys swyddfeydd gweinyddol, ystafelloedd cwrdd, llyfrgell lle mae croeso i bawb ymchwilio neu ofyn am gymorth ynglŷn â’r amgylchedd, arddangosfeydd amrywiol, a chaffi sy’n cynnig bwyd a lluniaeth Masnach Deg.



**Canolfan Amgylchedd Abertawe**

Mae siop yno hefyd sy’n gwerthu nwyddau Masnach Deg, eitemau o bapur wedi’i ailgylchu, glanhawyr bio, setiau radio ‘weindio’, bylbiau ynni isel ac ati.

Yn ogystal, mae’r Ganolfan yn trefnu ac yn hysbysebu amrywiaeth o weithgareddau sy’n ymwneud ag ymgyrchoedd ecolegol a byd natur.

► *Oriau Agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 10am — 4pm (9 — 5 am alwadau ffôn). Ffôn: 01792 480200.*
*Ebost: office@environmentcentre.org.uk .*
*Gwefan: www.environmentcentre.org.uk.*

## Gweithgareddau Moelyci

Mae Canolfan Amgylcheddol Moelyci ger Bangor yn gwmni cydweithredol gydag amcanion elusennol. Daeth i fodolaeth wedi i bobl leol fynd ati i brynu fferm a 350 erw ar fynydd Moelyci er mwyn atal datblygiadau fyddai yn erbyn dymuniadau lleol. Gyda bron i 300 o aelodau, mae’r Ganolfan yn cynorthwyo busnesau gwyrdd, yn cynnig hyfforddiant amgylcheddol, ac yn trefnu gweithgarwch ecolegol.

► *Gwybodaeth gan Catrin Ellis Jones neu John Fazey. Ffôn: 01248 602793.Gwefan: www.moelyci.org.*

# Paratoi am fyd heb olew — sefydlu 'Trefi Trawsnewid'

**MAE grwpiau o bobl yng ngorllewin Cymru yn ymgyrchu i sefydlu 'Trefi Trawsnewid' – sef trefi sy'n paratoi ar gyfer byd heb olew.**

Eisoes mae cyfarfodydd mewn trefi fel Llandeilo, Llanbedr pont Steffan ac Abergwaun wedi dangos bod llawer o bobl yn frwd i ddechrau arbed ynni a phopeth arall fydd yn lleihau dibyniaeth ar olew.

Un o drefnyddion lleol y mudiad yw'r wraig fusnes Rhiannon Rowley o Landeilo sy'n berchennog ar gwmni Abacca Organics yn Nhycroes, Rhydaman.

"Mae pobl yn teimlo eu bod nhw eisiau dechrau gwneud pethau eu hunain nawr oherwydd yr hyn fydd yn digwydd trwy'r byd wrth i olew redeg ma's," meddai. "Mae angen inni drafod sut i greu ffordd newydd o fyw."

Mae hi'n esbonio bod defnydd ynni wedi codi'n gyflym iawn dros y degawdau diwethaf, gyda phobl sydd ond yn eu 80au yn cofio llawer llai o drydan a phetrol, er enghraifft, yn cael ei ddefnyddio pan oeddynt yn ifanc, a dim bagiau plastig sydd hefyd yn gynnyrch olew.

Sefydlwyd mudiad Trefi Trawsnewid dair blynedd yn ôl yn dilyn gwaith arloesol gan Rob Hopkins yn nhref Kinsale yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Erbyn hyn mae rhyw 12 o Drefi Trawsnewid yn Lloegr, gyda Bryste'n arwain fel y ddinas gyntaf.

Mae'r mudiad hefyd yn lledu'n rhyngwladol wrth i bobl dramor dderbyn yr her i gwtogi ar ynni a nwyddau seiliedig ar olew.

Dywed Rob Hopkins, fu'n annerch cyfarfod yn Llambed, fod angen datblygu cynlluniau arbed ynni ar frys gan na fydd dulliau adnewyddol o gynhyrchu ond yn cyrraedd 40% o'n hanghenion presennol.

"Rhaid i'n dyfodol fod yn llawer mwy lleol, gan ddefnyddio llai o ynni, a gwerthfawrogi'r ynni sydd gennym – gan arwain at fywydau llawer mwy boddhaol a chymdeithasol."

Mewn cyfarfod yn Llandeilo, dywedodd yr ymgynghorydd olew Americanaidd John Cary fod cynhyrchu olew bellach yn cyrraedd ei anterth, ac y bydd olew rhad ar ben erbyn 2025. Felly, roedd torri nôl yn hanfodol.

"All glo, na thywod a graean olew ddim gwneud i fyny am yr olew rhad," meddai. A doedd niwclear a hydrogen ddim yn opsiwn, 'chwaith.

## NEGES PLANT ABERAERON ...

# Ein Cymru, ein Daear — stwffiwch eich sbwriel!





**LLUNIAU: Plant brwd Ysgol Gynradd Aberaeron yn casglu sbwriel ar draethau eu hardal fel rhan o Brosiect Gofal Arfordir gorllewin Cymru.**

3,935 o fagiau sbwriel - dyna ffrwyth cynllun Gofal Arfordir gorllewin Cymru hyd yn hyn, sef un o'r ymgyrchoedd amgylcheddol cyfoes sy'n denu'r nifer mwya' o weithwyr gwirfoddol.

Trefnir y gweithgarwch i lanhau'r traethau gan fudiad Cadw Cymru'n Daclus a ddechreuodd ar y gwaith ym 1999.

Bellach mae 77 o grwpiau ledled arfordir gorllewin Cymru, gyda 771 o brosiectau wedi bod, neu'n dal ar gerdded, ar 104 o draethau mabwysiedig.

Wedi'i ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, ac yn gweithredu ar y cyd gyda phrosiect cyffelyb yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar sefydlu grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol fydd yn gofalu am yr arfordir gan 'fabwysiadu' a rheoli traethau.

Prif nod y prosiect yw lleihau effaith sbwriel gan adfer apêl esthetig yr arfordir a chynyddu ei harddwch a'i werth economaidd i'r gymuned .

Wrth godi ymwybyddiaeth o'r llanastr a wneir gan sbwriel ar ein traethau, mae'r prosiect hefyd yn codi'r cwestiwn o sut rydym yn trin ein hamgylchedd yn gyffredinol - nid o ran harddwch a glendid yn unig ond hefyd wrth ystyried y ffordd rydym yn gwenwyno'r Ddaear am genedlaethau i ddod gyda 'gwastraff' ein dinasoedd a'n trefi. Digon o reswm, felly, i danio brwdfrydedd plant fel rhai Ysgol Gynradd Aberaeron (uchod).

►*Am fwy o wybodaeth, neu i ymuno a'r grwpiau gwirfoddol, cysylltwch â Chadw Cymru'n Daclus.*
*Gorllewin Cymru - Chris Corcoran. Ffôn: 01646 681949. Ebost: Chris.Corcoran@keepwalestidy.org*
*Gogledd Cymru - Gruff Jones. Ffôn: 01286 674081. Ebost: Gruff.Jones@keepwalestidy.org* .

**Y PAPUR GWYRDD**
*Llais Cymraeg i'r mudiad ecolegol*
Holwch amdano mewn siopau llyfrau a phapurau newydd ledled Cymru
Am fwy o fanylion — Ffôn 01792 798162
Ebost: teulu217@btinternet.com
Rhif ISSN 1755-3504